| | |
|---|---|
| **Dyddiad Llunio:** | 27/07/18 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1.00 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 27/07/18 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Uned Polisi Corfforaethol – Diogelwch y Cyhoedd |
| **Maes Gwaith:** | Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg (Hyfforddiant) |
| **Manylion cyswllt:** | E-bost: cymraeg@caerffili.gov.uk / 01443 864353 |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Hysbysiad Preifatrwydd Hyfforddiant Cydraddoldeb a'r Gymraeg |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro'r modd y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi wrth archebu lle ar Gyrsiau Hyfforddiant Cymraeg a/neu Gydraddoldeb, gan gynnwys yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y Ffurflenni Gwerthuso ar gyfer Hyfforddiant a Monitro Cydraddoldeb. |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth?

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Mae Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn trefnu Cyrsiau Hyfforddiant Cymraeg a Chydraddoldeb ar gyfer staff ac aelodau etholedig. Pan fydd staff yn archebu lle ar gwrs hyfforddiant, bydd yn rhaid iddynt lenwi Ffurflen Cytundeb Hyfforddiant, sy'n cynnwys gwybodaeth debyg i fanylion cyswllt eu gwaith a'u llofnod. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio at ddibenion gweinyddu'r cwrs a chofnodi eich presenoldeb. Os byddwch yn nodi manylion cyswllt personol ar y ffurflen hon, byddant yn cael eu defnyddio'n unig i gysylltu â chi os bydd mater munud olaf yn codi ynghylch y cwrs yr ydych wedi archebu lle arno. Efallai y bydd gwybodaeth am eich presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi yn cael ei rhannu â'ch Maes Gwasanaeth.

Ar ddiwedd cwrs, gofynnir i'r staff lenwi Ffurflen Gwerthuso Hyfforddiant. Nid ydym yn gofyn am eich hunaniaeth ar y ffurflen hon, ac mae ei llenwi yn ddewisol. Mae'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi yn cael ei defnyddio i wella'r hyfforddiant. Efallai y bydd yr wybodaeth, ar ôl cael ei chasglu, yn cael ei chyhoeddi mewn adroddiad hyfforddiant blynyddol, ond ni fydd hynny'n cael ei wneud mewn modd a fydd yn galluogi i'r unigolion gael eu hadnabod ar sail yr wybodaeth.

Ar ddiwedd cwrs, gofynnir i'r staff hefyd lenwi Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Nid ydym yn gofyn am eich hunaniaeth ar y ffurflen hon, ac mae ei llenwi yn ddewisol. Mae'n ofynnol monitro materion tebyg i recriwtio, dyrchafu, hyfforddi, cyflogau, cwynion a chamau disgyblu trwy gyfeirio at nodweddion gwarchodedig y cyflogeion. Mae'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb yn cael ei defnyddio i ddadansoddi cyfansoddiad y rheiny sy'n mynd ar y cyrsiau, a hynny at ddibenion monitro cydraddoldeb a nodi bylchau. Efallai y bydd yr wybodaeth, ar ôl cael ei chasglu, yn cael ei rhannu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn ogystal â'i rhannu â sefydliadau allanol, er enghraifft y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a Chomisiynydd y Gymraeg. Dim ond data cydraddoldeb, sydd wedi cael eu casglu mewn modd lle na ellir adnabod yr unigolion ar sail yr wybodaeth honno, y byddwn yn eu rhannu.

**Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu**

Y Data Personol a gynhwysir ar y Ffurflen Cytundeb Hyfforddiant

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dibynnu ar ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i brosesu eich gwybodaeth.

Er mwyn sicrhau bod y gwaith prosesu data personol yn gyfreithlon o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

Os mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data, sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo gwrthrych y data yn blentyn.

Yr wybodaeth a gynhwysir ar y Ffurflenni Gwerthuso Hyfforddiant a Monitro Cydraddoldeb

Gan nad ydym yn gofyn am eich hunaniaeth ar y ffurflenni hyn, nid yw'r wybodaeth a brosesir yn ddata personol, ac, felly, nid yw'r amodau ar gyfer prosesu o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ofynnol.

## Pwy fydd â mynediad i'ch gwybodaeth?

**Hunaniaeth y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Rhif Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

**Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg

**Manylion unrhyw arferion o ran rhannu eich gwybodaeth**

Efallai y bydd gwybodaeth am eich presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi yn cael ei rhannu â'ch Maes Gwasanaeth.

Gellir cyhoeddi gwybodaeth, a gesglir o'r hyn sy'n cael ei roi ar y Ffurflenni Gwerthuso Hyfforddiant, mewn adroddiad hyfforddiant blynyddol, ond ni fydd hynny'n cael ei wneud mewn modd a fydd yn galluogi i'r unigolion gael eu hadnabod ar sail yr wybodaeth.

Gellir rhannu gwybodaeth, a gesglir o'r hyn sy'n cael ei roi ar y Ffurflenni Monitro Cydraddoldeb, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn ogystal â'i rhannu â sefydliadau allanol, er enghraifft y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiynydd y Gymraeg. Dim ond data cydraddoldeb, sydd wedi cael eu casglu mewn modd lle na ellir adnabod yr unigolion ar sail yr wybodaeth honno, y byddwn yn eu rhannu.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

### Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Bydd Tîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn cadw'r holl wybodaeth am hyd at uchafswm o dair blynedd.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

### Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt), gan gynnwys:

- Hawliau mynediad y gwrthrych – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Cais Gwrthrych am Wybodaeth (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

http://www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints